



Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

2015 dccc 3

Cyflwyniad

1 Diben y Ddeddf hon

- (1) Diben y Ddeddf hon yw gwella—
- (a) trefniadau ar gyfer atal traís ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
 - (b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr traís ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
 - (c) y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan draisiau ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- (2) Gweler adran 24 am y diffiniadau o “traís ar sail rhywedd”, “cam-drin domestig” a “traís rhywiol”.